Senedd Cymru / Welsh Parliament
Y Pwyllgor Cyllid / Finance Committee
Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23 / Welsh Government Draft Budget 2022-23
WGDB_22-23 42
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Welsh Local Government Association

CLlLC
WLGA

# Ymgynghoriad Pwyllgor Cyllid y Senedd

Craffu ar Gyllideb Drafft Llywodraeth Cymru 2022-23

26 Tachwedd 2021

Jon Rae

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru

Ni yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Rydym yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Y 22 awdurdod lleol yng Nghymru yw ein haelodau ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Rydym yn credu bod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.**

Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi cysylltu â'u cyngor trwy ddemocratiaeth leol. Trwy gefnogi, hwyluso a chyflawni'r cysylltiadau hyn, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n caniatáu i gymunedau ffynnu.

**Ein prif nod** yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**

- Hybu rôl ac amlygrwydd cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
- Sicrhau disgresiwn lleol mwyaf mewn deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Cefnogi a sicrhau cyllid cynaliadwy a hirdymor i gynghorau
- Hybu gwelliant o dan arweiniad sector
- Annog democratiaeth leol fywiog, sy'n hybu mwy o ddemocratiaeth
- Cefnogi cynghorau i reoli eu gweithlu yn effeithiol

## Cyflwyniad

"Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg. This document is available in English."

1. Mae'r papur hwn yn seiliedig yn bennaf ar bapur a gyflwynodd CLlLC i'r Is-grŵp Cyllid ym mis Hydref. Roedd llawer iawn o wybodaeth newydd a gyflwynwyd yn y papur hwnnw yn canolbwyntio ar arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru a gynhaliwyd ar y 22 awdurdod lleol er mwyn llywio'r rownd nesaf o gyllideb Llywodraeth Cymru. Mae arolwg y llynedd ac effaith COVID-19 ar lywodraeth leol hyd yn hyn hefyd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad. Mae'n amlwg fod yr angen i ddelio â goblygiadau'r pandemig yn barhaus a bydd yn debygol o bara yn hirach nac un flwyddyn ariannol.

2. Roedd yr arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru yn casglu gwybodaeth ar y pwysau ariannol a ragwelir dros y tair blynedd nesaf. Roedd yr arolwg hefyd yn ceisio amcangyfrif o effaith ariannol COVID-19 ar arian awdurdodau lleol. Mae'r canlyniadau yn awgrymu effaith etifeddiaeth anochel o'r pandemig ar lywodraeth leol. Mae'r pwysau craidd a nodir yn yr arolwg wedi'i driongli ag amcangyfrifon a fodelwyd gan CLlLC o ffurflenni canolog a'r rhai a wnaed gan Ddadansoddi Cyllid Cymru.

3. Mae'r gwaith agos rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol mewn ymateb i'r pandemig hefyd wedi adeiladu corff cynhwysfawr o ddata ar y pwysau mae'r sector yn ei wynebu. Yn y flwyddyn ariannol hon mae FSG wedi derbyn adroddiadau yn dangos effaith ariannol amcangyfrifedig yr ymateb parhaus i'r argyfwng COVID-19.

4. Mae'r ymateb i'r pandemig wedi gweld gwaith partneriaeth heb ei debyg o'r blaen, rhwng Llywodraeth Cymru, cynghorau a GIG Cymru. Yn anochel, mae'r pandemig wedi achosi i Gynlluniau Ariannol Tymor Canolig gael eu hadolygu yn sgil pwysau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae cynghorau wedi dechrau symud i gam adferiad ac yn gweld hyn fel rhan allweddol o'u rôl. Mae parhau gyda dull Llywodraeth Cymru i gyllido pwysau mewn perthynas â Covid wedi chwarae rhan allweddol i sicrhau y gall gynghorau barhau i gefnogi eu cymunedau. Bydd sicrwydd a chymorth ariannol yn allweddol i'r cam adferiad parhaus.

5. Fe wnaeth yr arolwg gasglu data ar y pwysau ariannol amcangyfrifedig mae cynghorau yn ei wynebu. Roedd hefyd yn ceisio amcangyfrifon o ofynion cyllido mewn perthynas â Covid dros y tymor canolig. Roedd y wybodaeth hefyd wedi'i gasglu ar gyfer ysgolion.


6. Roedd yr arolwg eleni yn rhoi pwyslais ar gynllunio ariannol tymor canolig y mae'r 22 cyngor yn eu cyflawni. O ganlyniad, mae data penawdau dros y tair blynedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth a ddarperir gan Ddadansoddi Cyllid Cymru a edrychodd yn ddiweddar ar y rhagolygon ar gyfer Cyllideb Cymru.

7. Cynhaliwyd yr arolwg cyn yr anwadalrwydd sylweddol diweddar yn y sector ynni. Bydd y costau ychwanegol sylweddol yn effeithio cynghorau drwy gynnydd mewn costau rhedeg uniongyrchol a hefyd y gost o wasanaethau a gomisiynir. Mae'n debygol o weld cynnydd mewn lefelau ffioedd o ddarparwyr cartref gofal a chyflenwyr gwasanaethau. Yn ddiweddar, roedd o leiaf un awdurdod bach yn amcangyfrif £800,000 o bwysau yn y flwyddyn nesaf yn codi o nwy a thrydan, yn seiliedig ar brisiau sy'n dod allan o'r Gwasanaethau Masnachol y Goron.

## Trosolwg

8. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021 gan Archwilio Cymru yn rhoi cyd-destun defnyddiol ar gyfer Cyllideb Llywodraeth Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod mwy na hanner (52%) o gyfanswm cyllideb refeniw rŵan wedi'i ddyrannu i Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae ffigwr 1 yn dangos bod cyllid refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru wedi cynyddu 16% mewn termau real, tra bod cyllid refeniw i lywodraeth lleol wedi disgyn 17% rhwng 2010-11 a 2019-20.

   **Ffigwr 1:** Newid mewn cyllid refeniw craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a llywodraeth leol, 2010-11 i 2019-20 (termau real, prisiau 2019-20).




**Ffynhonnell:** Archwilio Cymru 2021

9. Mewn ymateb i lai o gyllid Llywodraeth Cymru, mae cynghorau wedi cynyddu treth y cyngor 35% yn ogystal â chwyddiant rhwng 2010-11 a 2019-20. Fodd bynnag, disgynnodd cyfanswm gwariant refeniw ar draws llywodraeth leol o 8% dros y cyfnod ac nid yw'r toriadau hyn wedi disgyn yn gyfartal ar draws holl wasanaethau lleol. Mae'r toriadau dyfnaf wedi dod i wasanaethau hamdden, diwylliant a llyfrgell, sydd wedi gweld toriadau o dros 40%, a

gwasanaethau rheoleiddio, megis rheoli datblygiad, rheoli adeiladau, safonau masnach a diogelu'r cwsmer, sydd wedi gweld toriadau o dros 30% dros y cyfnod hwnnw.

10. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld Llywodraeth Leol yn darparu ymateb pandemig allweddol sydd wedi bod tu hwnt i'w rôl arferol. Mae'r sefyllfa digynsail wedi dangos cryfder y bartneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus ehangach a'r trydydd sector. Mae staff llywodraeth leol wedi sicrhau fod y rhai mwyaf diamddiffyn wedi cael eu cefnogi yn ystod yr argyfwng. Mae parhad Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru wedi bod yn allweddol i lwyddiant yr ymateb; heb y cymorth ariannol hwn ni fyddai cynghorau wedi gallu diwallu'r galw a grëwyd gan y pandemig.

11. Ar yr adeg hon y llynedd, nodwyd bod yr ymateb i'r pandemig wedi ailgyfeirio ymdrechion awdurdod lleol i ddelio ag effaith y pandemig ac i ddarparu rôl arweinyddiaeth i'w cymuned. Mae hyn wedi parhau yn y flwyddyn ariannol hon ac mae awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu ystod eang o wasanaethau.

12. Mae effaith y pandemig wedi effeithio ar flaenoriaethau lleol ac arian y cyngor. Fodd bynnag, mae'r Cronfa Galedi ynghyd â rheolaeth ariannol lleol cadarn wedi cynorthwyo'r sefyllfa. Er hynny, mae gwasanaethau a arweinir gan y galw yn y sector gofal cymdeithasol wedi cael eu heffeithio'n wael a bydd pryder gwirioneddol am barhad gwasanaeth ac effaith parhaus ar arian yn parhau.

13. Ar hyn o bryd mae cynghorau yn mynd drwy brosesau cyllideb. Yr hyn sy'n edrych yn debygol yw y gall yr angen dealladwy i ganolbwyntio ar yr ymateb i COVID wyro'r ymdrech i ddarparu arbedion cytunedig. Mae cynghorau wedi ymgysylltu mewn rhaglenni trawsnewid i ddarparu arbedion y blynyddoedd blaenorol, a bydd y rhain yn gymhleth; bydd eu darpariaeth yn allweddol yn yr hirdymor i gynghorau. Bydd unrhyw oedi yn gallu golygu toriadau dyfnach i wasanaethau.

14. Mae'r tabl canlynol yn dangos y bwlch ariannol o ganlyniad yr arolwg. Ac eithrio pwysau mewn perthynas â COVID, mae'r pwysau sylfaenol ar gyfer 2022-23 yn dod i gyfanswm o £280 miliwn ac mae patrymau tebyg yn amlwg ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

**Ffigur 2:** Pwysau yn ôl thema, 2022-23 i 2024-25

| **Pwysau yn ôl thema (£m)** | | | |
|---|---|---|---|
| | **22-23** | **23-24** | **24-25** |
| Chwyddiant cyflogau | 105,380 | 95,445 | 95,003 |
| Chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflog | 75,962 | 70,540 | 70,554 |
| Ffioedd a Thaliadau | - 8,482 | -7,788 | -7,007 |
| Pwysau mewn perthynas â galw | 101,740 | 90,423 | 85,833 |
| Pwysau cyllido cyfalaf | 11,066 | 15,915 | 27,625 |
| Gostyngiad mewn grantiau penodol | 9,504 | 4,030 | 3,348 |
| Blaenoriaethau Lleol | 13,335 | 6,313 | 4,635 |
| Arall | 23,347 | 26,168 | 16,022 |
| | | | |
| Pwysau covid | 75,529 | 26,168 | 16,022 |
| **Cyfanswm y pwysau** | **407,381** | **314,451** | **304,979** |

**Ffynhonnell:** Arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru 2021

15. Mae'r tabl uchod yn rhoi graddfa'r her mae Llywodraeth Leol Cymru yn ei wynebu dros y tair blynedd nesaf gyda'r pwysau yn dod i gyfanswm o £407 miliwn y flwyddyn nesaf gan roi swm cronnus o £1.03 biliwn erbyn 2024-25.

16. Nid yw'r ffigyrau yn cynnwys effaith yr Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ond amcangyfrifir y bydd hyn yn costio unrhyw swm rhwng £30 miliwn a £47 miliwn i lywodraeth leol yng Nghymru.

17. Roedd Dadansoddi Cyllid Cymru yn dynodi y bydd angen i wariant awdurdod lleol gynyddu 3.4% (termau ariannol) i fodloni pwysau gwariant dros y blynyddoedd i ddod.

18. Nid yw'r ffigyrau yn cymryd i ystyriaeth y goblygiadau refeniw o'r ymrwymiadau a wnaed yn ddiweddar gan y 22 ALI mewn perthynas â'r targed o sector cyhoeddus di-garbon net erbyn 2030 (gweler yr Atodiad). Er y bydd nifer o'r ymrwymiadau hynny angen gwariant cyfalaf (gweler isod) mae'n bosibl y gall o leiaf rhai o'r buddsoddiadau gael eu cyflawni drwy fenthyca llywodraeth leol, gyda goblygiadau refeniw cysylltiedig dros gyfnod o flynyddoedd.

19. Mae'r ymrwymiad i sicrhau bod caffael yn cael ei lywio gan oblygiadau carbon y nwyddau a gwasanaethau a brynir (yn eu datblygiad, defnydd a diwedd oes) hefyd yn arwain at *gostau* uwch ymlaen llaw. Mae'r *buddion* ehangach sy'n codi ar hyd y gadwyn gyflenwi o arferion caffael o'r fath yn hanfodol o bwysig, gan fod caffael yn cyfrif am oddeutu 60% o allyriadau carbon y cyngor. Fodd bynnag, maent yn anodd cipio a chyfrif yn uniongyrchol ac o bersbectif ariannol cul, gallent ymddangos yn syml fel costau uwch.

20. Bydd goblygiadau refeniw eraill yn codi o’r angen i ddarparu hyfforddiant yn y sgiliau sydd eu hangen i gefnogi gweithrediadau datgarboneiddio (e.e. ailhyfforddi mecanyddion, peirianwyr, rheolwyr ynni) a chefnogaeth gymunedol i addasu i newid hinsawdd wedi’i ‘adeiladu i mewn’ (e.e. ymatebion i fwy o ddigwyddiadau tywydd difrifol; gweithio gyda chymunedau i adeiladu cadernid a sicrhau eu bod yn barod am ddigwyddiadau o’r fath).

21. Mae sefyllfa ariannol rhai cynghorau yn debygol o ddod yn enbyd yn 2022-23 mewn perthynas â lefelau cronfeydd wrth gefn. Mae siociau ariannol yn llawer mwy anodd i’w hamsugno mewn rhai cynghorau ac fe fyddai’n anghywir gweld y cronfeydd wrth gefn cyffredinol fel mynegiant fod y sector yn gallu llywio a delio â setliad nad yw’n cydnabod y sefyllfa bresennol.

## Adolygiad o Wariant ac Ymatebion Arolwg

22. Roedd yr arolwg eleni yn ceisio sefyllfa amcangyfrifiedig dros dair blynedd ariannol ac felly’n cyd-fynd â gorwelion amser cynllunio ariannol tymor canolig y cyngor. Roedd yr arolwg yn cael ei gynnal ar adeg lle cafodd yr adolygiad o wariant ei gyhoeddi ynghyd â chyflwyniad i ardoll newydd wedi'i neilltuo (treth) mewn ffurf cynnydd mewn Yswiriant Gwladol i gyllido Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

23. Ar 7 Medi daeth y cyhoeddiad o Adolygiad o Wariant gyda chynlluniau llywodraeth y DU ar gyfer cyllido iechyd a gofal cymdeithasol drwy gynyddu Yswiriant Gwladol. Er fod y manylion sy’n effeithio ar Ofal Cymdeithasol yn ymwneud yn bennaf â Lloegr, mae natur datganoledig gofal cymdeithasol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn golygu y bydd yn fater i Lywodraeth Cymru weithredu’r newidiadau arfaethedig.

24. Bydd y manylion mewn perthynas ag Yswiriant Gwladol yn effeithio ar y pedwar cenedl gan nad yw hyn yn fater datganoledig, ond o Ebrill 2022, bydd cynnydd o 1.25% ar gyfraniadau yswiriant gwladol gweithwyr a chyflogwyr. Mewn effaith mae hyn yn gynnydd o 2.5% mewn cyfradd treth ar enillion cyflogaeth. Bydd hefyd yn cael ei ymestyn i’r rhai sy’n gweithio sydd dros oedran pensiwn. Dyma’r tro cyntaf i’r rhai sydd dros oedran pensiwn orfod talu yswiriant gwladol. Amcangyfrifir y bydd yr effaith digyllid posibl ar Lywodraeth Lleol Cymru rhwng £30miliwn i £47 miliwn gan gynnwys ysgolion.

25. Bydd y cyhoeddiad o gyllid ychwanegol o bosibl yn elwa llywodraeth leol, ond dim ond os fydd ei rôl yn cael ei gydnabod a bod swm priodol yn cael ei ddosbarthu i gynghorau. Amcangyfrifir dros y 3 blynedd nesaf, bydd £36 biliwn yn cael ei godi a bydd y GIG yn derbyn oddeutu £25 biliwn, Gofal Cymdeithasol £5.4 biliwn ac oddeutu £6 biliwn yn mynd i weinyddiaethau datganoledig.

26. Mae gofal cymdeithasol yn bryder allweddol ar gyfer cynghorau ac mae'r pandemig wedi creu pwysau ychwanegol. Mae'r cynnydd mewn atgyfeiriadau a llwyth gwaith wedi arwain at gynnydd mewn gweithgareddau a gyflawnir ac mae gwasanaethau cost uwch yn cael eu darparu yn aml yn sgil diffyg capasiti. Mae gwasanaethau plant wedi gweld cynnydd mewn gwaith statudol gyda'r galw yn creu pwysau cost sylweddol. Mae un awdurdod wedi gweld cynnydd o 53% mewn contractau Gwasanaethau Plant i'r 'drws ffrynt' o'i gymharu ag Awst 2019 ac Awst 2021. Cymhariaeth tebyg o atgyfeiriadau i'r tîm asesiad gyda chynnydd o 44%. Roedd y patrwm hefyd yn amlwg yng Ngwasanaethau Oedolion yr un awdurdod lle welwyd cynnydd o 66% mewn atgyfeiriadau i'r 'drws ffrynt'.

27. Mewn perthynas â threfniadau Cynllunio Ariannol Tymor Canolig cynghorau, datganwyd ar ôl 3 blynedd y bydd y symiau cynyddol ar gyfer y GIG yn cael eu hailgyfeirio i ofal cymdeithasol oherwydd bydd yr ôl-groniad Covid wedi cael ei ddelio. Yn amlwg bydd hyn yn dibynnu ar y parodrwydd i drosglwyddo'r cyllid o'r GIG i'r system ofal ar amser lle bydd mwy o alw ar wasanaethau iechyd yn debygol.

28. Roedd yr arolwg yn dangos fod mwyafrif y cynghorau yn gwneud rhagdybiaethau cyson mewn perthynas â dyfarniad cyflog yn 2022-23. Mae hyn yn erbyn cefndir o'r Trysorlys yn rhoi pwysau i lawr ar gynyddiadau cyflog y sector cyhoeddus fel y tystiolaethwyd yn llythyr y Canghellor ar 7 Medi yn cyhoeddi'r adolygiad o wariant. Mae'n debygol na fydd y sefyllfa derfynol ar y dyfarniad cyflog yn cael ei ddatrys am beth amser. Ar 1 Hydref, cyhoeddodd Unsain ganlyniad eu pleidlais ar gyflog, sef 79% yn gwrthod cynnig olaf Cyflogwyr o 1.75% (gyda 2.75% i'r rhai ar y pwynt cyflog isaf).

29. Mae'r cynghorau yn adrodd bod y pandemig wedi ailosod lefelau galw ar gyfer rhai gwasanaethau sy'n annhebygol iawn o gael ei gynnwys o fewn un setliad cyllideb, ac felly mae'r effaith ariannol wedi cael ei gynnwys ar gyfer y blynyddoedd yn y dyfodol er bod hynny ar lefel llai. Mae un cyngor wedi nodi £5 miliwn ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol y mae'n credu sydd ei angen i fuddsoddi i'r gwasanaeth a datrys materion systematig (Gwasanaethau Plant yn bennaf ond Oedolion hefyd) a achoswyd gan effaith y pandemig dros y 18 mis diwethaf.

30. Mae pryder hefyd am golled incwm yn adlewyrchu bod rhai lefelau incwm yn parhau i fod 15% yn is nac amodau cyn covid. Os yw'r risgiau hyn yn dod i'r amlwg heb y cyllid ychwanegol, yna bydd angen nodi mesurau lliniaru dros dro yn ystod 2022-23 ac ailosod blaenoriaethau dros y tymor canolig.

31. Mae'r pwysau a nodir yn yr arolwg yn cynnwys digartrefedd, gofal cymdeithasol i oedolion, gwasanaethau plant a gwasanaethau gwastraff. Nododd un awdurdod ei fod yn wynebu pwysau o ran cost o £2 filiwn y flwyddyn ar ei gyllideb digartrefedd.

32. Mae ysgolion yn cyfrif am oddeutu 35% o gyllideb y cyngor gyda gofal cymdeithasol yn cyfrif am 25%. Mae ymatebion yr arolwg yn dangos y pwysau a wynebir yn y meysydd hyn ac mae hyn yn cael ei gymhlethu gan ofyniad cyffredinol i gydbwyso cyllidebau, ac mae'n edrych yn debygol y bydd angen iddynt gyfrannu arbedion mewn rhai cynghorau gan arwain at effaith ar wasanaethau.

33. Roedd yr arolwg yn dynodi bod y pwysau ariannol mewn ysgolion yn dod i £82.3 miliwn. Mae hyn ar amser lle mae nifer o gyllidebau ysgol eisoes mewn sefyllfaoedd o ddiffyg. Byddai unrhyw doriadau yn parhau i ansefydlogi'r ysgolion hynny sy'n ceisio darparu cyllidebau cytbwys fel rhan o gynllun adfer cytunedig. Byddai'r effaith ar fesurau gwella ysgolion hefyd yn sylweddol.

34. Mae'n debygol y bydd cost chwyddiant cudd yn y sector gofal a gomisiynir yn annibynnol, gyda COVID yn un ffynhonnell. Bydd darparwyr yn parhau i fod angen cyfarpar diogelu personol am beth amser eto, ac mae hyn yn debygol (yn yr un modd â chostau ynni) o fwydo i mewn i lefelau ffioedd.

35. Mae'r Gronfa Caledi wedi chwarae rhan arwyddocaol i ddiwallu'r gofynion a roddwyd ar gynghorau gan y pandemig. Wrth i'r cymorth ariannol ddod i ben, mae'n amlwg y bydd angen i gynghorau ddelio â 'chynffon' canlyniadau ariannol sy'n effeithio'r galw ar wasanaethau, a hefyd incwm coll, gydag un cyngor yn pwysleisio fod canolfannau hamdden yn annhebygol o ddychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig am amser maith.

## Gofal Cymdeithasol

36. Roedd arolwg CLILC/Cymdeithas Trysoryddion Cymru yn nodi'r pwysau ariannol a achoswyd gan y galw am ofal cymdeithasol sydd wedi cynyddu ymhellach yn sgil y pandemig. Mae'r ffactorau hefyd wedi cael eu dwyn i sylw Lywodraeth Cymru mewn llythyr gan Lywydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru.

37. Mae'r pwysau sy'n wynebu Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant yn rhannu nifer o ffactorau cyffredin gan gynnwys recriwtio a chadw staff. Mae hyn hefyd yn effeithio ar wasanaethau a gomisiynir gan ddarparwyr. Mae cynnydd canlyniadol mewn costau asiantaeth yn ychwanegu mwy o bwysau ariannol.

38. Mae effaith y pandemig wedi bod yn sylweddol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol a'i weithlu gyda rhai meysydd wedi cael eu taro yn galetach nac eraill, er enghraifft, mae'r sector cartref gofal wedi cael ei effeithio'n benodol o

galed, gyda nifer uchel o farwolaethau yn sgil Covid-19. Mae preswylwyr, staff a busnesau cartref gofal yn parhau i gael eu heffeithio gan fod trosglwyddiadau yn y gymuned yn parhau i fod yn uchel. Fodd bynnag, cafodd holl feysydd gwaith gofal cymdeithasol eu heffeithio gan y pandemig, ac er fod rhai sectorau wedi symud i fodel adfer, mae gofal cymdeithasol yn parhau i weithredu ar lefel ymateb, ac mae'r pandemig yn parhau i effeithio ar ddarpariaeth rhai gwasanaethau mewn gwahanol ffyrdd.

39. Ni ellir tanbrisio effaith y pandemig ar y gweithlu. Yn ystod y pandemig, aeth nifer o staff tu hwnt i ddisgwyliadau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu i bobl ddiamddiffyn, gan barhau i ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb a gofal personol, gan gyflawni eu dyletswyddau diogelu a datblygu ffyrdd newydd o gyflawni eu rolau. Profwyd efelau uchel o absenoldebau staff, rhai oherwydd fod ganddynt Covid neu bod angen iddynt hunan-ynysu, ac mae hyn wedi cynyddu'r pwysau ar staff presennol, gyda nifer yn gweithio shifftiau ac oriau hirach a rhai yn cyflawni tasgau newydd gan adlewyrchu dull 'all hands-on deck' er mwyn diwallu anghenion y gwasanaeth. Roedd staff cyngor eraill hefyd yn rhan o gefnogi'r sector gofal. Er fod dau daliad ychwanegol o £500 wedi cael eu talu i staff gofal cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru (drwy awdurdodau lleol) i gydnabod eu hymdrechion yn ystod y pandemig, nid yw hyn yn mynd i'r afael â chyflog isel hirdymor staff gofal cymdeithasol.

40. Mae cynghorau yn gweithio gyda'i gilydd i ystyried cynllunio gweithredol gweithlu drwy archwilio ystod o fesurau. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o gynnwys ymrwymiad ariannol a fydd angen cael ei gyllido. Mae'n amlwg bod angen i ddenu pobl i weithio ym maes gofal cymdeithasol er mwyn delio â'r galw presennol ac yn y dyfodol, ond bydd hyn yn cymryd amser ac ni fydd yn datrys pwysau acíwt yn y system ar unwaith.

41. Mae'r arolwg yn dynodi fod y pandemig wedi datguddio bregusrwydd y farchnad gofal, ac mae gan hyn gyswllt amlwg ac uniongyrchol i'r pwysau ariannol a wynebir gan yr holl gynghorau. Bydd cynaliadwyedd hirdymor y sector angen adnoddau, yn arbennig gan fod y llythyr i'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol yn nodi fod 'y galw yn parhau i dyfu yn gyflym o'i gymharu â chapasiti. Yn ogystal â hynny, mae'r cymhlethdod ychwanegol y rhai sy'n cyflwyno i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn unigryw ac yn ddigynsail.'

42. Yn ogystal â hynny, ar hyn o bryd mae cynghorau yn gorfod talu am gyfleusterau mewn cartrefi gofal na ellir eu defnyddio. Mae unedau gwag a delir amdanynt yn bwysau ariannol sylweddol sy'n cynorthwyo cynaliadwyedd hirdymor y farchnad, ond sy'n golygu fod pwysau i ddod o hyd i gyflenwad amgen yn creu problemau ar draws y system. Mae cynghorau hefyd yn nodi pwysau ar ddarpariaeth ailalluogi, gan fod rhai pecynnau gofal cartref yn cael eu tynnu'n ôl gan ddarparwyr.

43. Mae tystiolaeth hefyd o alw cronnus yn y system gyda rhestrau aros ar gyfer asesiadau yn parhau i gynyddu. Efallai bod y galw cronnus yn fwy difrifol gan fod hyn wedi'i guddio gan gyfraniad sylweddol gofalwyr di-dâl. Os fydd y gofalwyr di-dâl hyn yn methu â pharhau i ddarparu cymorth, bydd yn ychwanegu at y pwysau a wynebir gan yr holl gynghorau.

44. Mae'r materion sy'n wynebu Gwasanaethau Plant yn debyg. Mae prinder gweithlu ar adeg lle mae galw cynyddol yn creu pwysau a gaiff ei gynyddu gan yr anhawster o ddod o hyd i leoliadau 'derbyn gofal' ar gyfer plant. Mae pwysau cynyddol yn wynebu teuluoedd sydd angen gofal seibiant rheolaidd, a gall hyn fod yr un mor anodd i'w ddarparu am resymau tebyg i leoliadau tymor hirach.

45. Mae pwysau gofal cymdeithasol yn aml yn cael eu datrys drwy weithio ar y cyd gyda gwahanol rannau o'r cyngor. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys cynorthwyo'r rhai sy'n ddigartref. Mae'r pandemig wedi rhoi straen difrifol ar y maes hwn o weithgarwch y cyngor, ac mae'n amlwg y bydd y galw cynyddol ar gyfer gwasanaethau yn parhau yn sgil diweithdra, ynysiad a theuluoedd yn chwalu.

46. Y pryder a godwyd yn yr arolwg oedd na fydd effaith y pandemig yn dod i ben ar unrhyw bwynt penodol. Bydd yn parhau i effeithio ar fywydau'r rhai mwyaf diamddiffyn ac felly'n creu galw cynyddol am wasanaethau.

47. Mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) wedi nodi'r angen am setliad hirdymor sy'n gynaliadwy ac yn gallu bodloni anghenion lleol. Mae gan ADSS bryderon difrifol am amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys diffyg yn y farchnad a system, cymhlethdod a lefelau o angen cynyddol, yn ogystal ag effaith gweithlu sydd eisoes yn ei chael yn anodd.

48. Mae Archwilio Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi 'Darlun o Ofal Cymdeithasol' a oedd yn crynhoi gwybodaeth allweddol am Ofal Cymdeithasol yng Nghymru. Nodwyd fod y galw am ofal cymdeithasol i oedolion yn debygol o gynyddu yn sylweddol. Wrth fod yn bwyllog am effaith Covid, mae'n nodi 'Bydd yr heriau o fynd i'r afael ag effaith anuniongyrchol COVID-19 yn debygol o barhau am flynyddoedd i'r dyfofol. Mae'r broblem wedi dwysau gan y ffaith bod materion sylweddol, hirsefydlog yn y sector gofal cymdeithasol sy'n bodoli cyn y pandemig.'

49. Mae adroddiad Archwilio Cymru hefyd yn nodi 'Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Fframwaith Adfer Gofal Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2021 i ddarparu strwythur trosfwaol i gefnogi cynllunio adferiad yn y sector. Mae'r Fframwaith yn gosod blaenoriaethau adferiad ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth, gofalwyr di-dâl, gweithlu gofal cymdeithasol, a darparwyr gwasanaeth. Yn fwy eang, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i wario £1 biliwn i

gefnogi ei adferiad mewn iechyd a gofal cymdeithasol ym Mai 2021. Hyd yn hyn, nid yw wedi nodi faint o gyllid fydd ar gael i ofal cymdeithasol.' Mae gweld y deilliant hwn yn fater o bwysigrwydd sylweddol i gynghorau.


50. Mae'r pwysau sy'n wynebu gofal cymdeithasol a'r gydnabyddiaeth o'i rôl allweddol yn y system gyffredinol yn golygu ei fod angen adnoddau fel bod ymyrraeth gynnar ac atal yn sicrhau fod y gofyniad am ofal cymdeithasol yn cael ei leihau. Bydd setliad cyllido priodol yn cyflymu'r dull hwn ac yn delio â materion sy'n bodoli cyn y pandemig, ond mae hyn wedi cael ei gymhlethu a'i waethygu o ganlyniad o'i effaith.

## Modelu Dadansoddi Cyllid Cymru a CLlLC

51. Mae'r ymatebion i'r arolwg yn gyson gyda'n modelu ein hunain o bwysau llywodraeth leol ac yn disgyn yn yr ystod a amcangyfrifwyd gan y tîm Dadansoddi Cyllid Cymru yn gynharach yn y flwyddyn.

52. Mae model CLlLC yn sensitif i'r rhagamcan sy'n tanategu tâl a galw ac yn darparu rhagolygon cyson dros gyfnod o 3 blynedd, yn yr achos hwn o 2022-23 i 2024-25. Mae'r pwysau sylfaenol ar gyfer 2022-23 yn dod i gyfanswm o £324 miliwn ac roedd patrymau tebyg yn amlwg dros y ddwy flynedd nesaf; yn codi £276 miliwn yn 2023-24 ac yna £277 miliwn yn 2024-25. Mae'r cynnydd i YG cyflogwyr wedi'i adeiladu i mewn i'r waelodlin yn y ddwy flynedd ddilynol. Mae'r pwysau cronnus yn codi i £877 miliwn erbyn 2024-25 fel y nodir yn y ffigwr isod.

**Ffigwr 3:** Pwysau Gwariant Llywodraeth Leol i 2024-25, £m





**Ffynhonnell:** Amcangyfrifon sylfaen: Adenillion Gwariant Refeniw Gwirioneddol a Chyfrif Refeniw (2019-20 i 2020-21)

53. Fe wnaeth y tîm Dadansoddi Cyllid Cymru wneud asesiad o bwysau llywodraeth leol yn eu cyhoeddiad Llywodraeth Leol a Chyllideb Llywodraeth Cymru: Rhagolygon a Heriau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru. Roedd hyn yn ran o gyfres o adroddiadau a gyhoeddwyd cyn yr etholiadau, yn asesu goblygiadau ar gyfer Cyllideb Llywodraeth Cymru y flwyddyn nesaf a thu hwnt.

54. Fe wnaethant gynhyrchu tair sefyllfa wahanol i bwysau sy'n wynebu gwasanaethau lleol, sydd wedi'i grynhoi yn ffigwr 4 isod. Ymhlyg yn yr amcangyfrifon hyn mae pwysau yn y flwyddyn ariannol nesaf (2022-23), yn amrywio o £184 miliwn yn y senario isaf i £403 miliwn yn y senario uchaf. Yn y flwyddyn ganlynol (2023-24) maent yn amrywio o £195 miliwn i £300 miliwn.

**Ffigwr 4:** Asesiad o Gydrannau Pwysau Gwariant Llywodraeth Leol i 25-26 Dadansoddi Cyllid Cymru




**Ffynhonnell:** Dadansoddi Cyllid Cymru 2021

## Gweithlu

55. Mae nifer o faterion yn y gweithlu sy’n effeithio ar wasanaethau llywodraeth leol ar hyn o bryd. Mae llywodraeth leol yng Nghymru am nifer o flynyddoedd wedi ei chael yn anodd recriwtio mewn nifer o feysydd allweddol. Mae’r rhain wedi bod yn gyson yn meysydd Gweithwyr Cymdeithasol, Swyddogion Rheoleiddio, Gwasanaethau Cyfreithiol, TG, Cynllunio a Rheoli Adeiladu. Mae ychwanegiadau diweddar gofal cymdeithasol, gyrwyr HGV ac athrawon cyflenwi, wedi cael eu hychwanegu i’r rhestr o faterion recriwtio. Mae hyn yn golygu fod y mwyafrif o sectorau gwasanaeth wedi cael eu heffeithio mewn un ffordd neu’r llall.

56. Nawr mawr heriau gwirioneddol mewn perthynas â recriwtio a chadw gwasanaethau mewnol a gwasanaethau a gomisiynir ar draws gwasanaethau oedolion a phlant. Mae’r mater wedi cael ei waethygu gan nifer o faterion gan gynnwys:

- Cystadleuaeth o’r gwasanaeth Iechyd a sectorau eraill sy’n gallu cynnig telerau ac amodau gwell. Mae hyn wedi cael ei waethygu ymhellach o ganlyniad i’r lleihad mewn mewnfudo ers i’r DU adael yr UE, sydd wedi cynyddu’r angen i’r diwydiant lletygarwch recriwtio’n lleol, gan gystadlu yn yr un gronfa o staff â gofal cymdeithasol.
- Lleihad mewn staff sy’n barod i barhau i weithio yn y sector, gyda rhai yn gwneud dewisiadau ffordd o fyw i leihau oriau gweithio a nifer yn gadael y sector gan eu bod dan bwysau.

- Mae rhai yn teimlo'n siomedig am y diffyg cydnabyddiaeth a roddir i weithwyr gofal cymdeithasol, gyda gweithwyr y GIG yn cael eu hystyried yn fwy gwerthfawr ac felly mae rhai yn gadael.
- Galw a phwysau cynyddol yn cael ei roi ar weithlu sy'n cael eu tan werthfawrogi a'u gorweithio.
- Anawsterau i lenwi absenoldebau staff yn sgil nifer fawr o staff yn gorfod hunan-ynysu. Mae hyn, yn ogystal â phwysau staff yn ceisio cymryd gwyliau sy'n ddyledus iddynt dros yr haf ac yn gynnar yn yr hydref.

57. Gall gyflwyniad y Cyflwyniad Byw Gwirioneddol effeithio'n wahanol ar y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae mwyafrif o rolau gofal mewnol eisoes yn bodloni'r Cyflog Byw Gwirioneddol ond mae'r darlun yn fwy cymysg mewn gwasanaethau a gomisiynir.

58. Mae'r farchnad swyddi presennol yn fywiog iawn, gyda nifer o swyddi gwag ar gael, sy'n aml yn arwain at chwyddiant cyflog i ddenu ymgeiswyr a recriwtio ar gyfer swyddi. Mae hyn wedi rhoi llywodraeth leol mewn sefyllfa heriol o geisio recriwtio i rolau allweddol mewn farchnad cystadleuol iawn, yn arbennig o ran cystadlu yn erbyn y sector preifat, lle mae ganddynt fwy o hyblygrwydd i gynyddu cyfraddau cyflog a fodloni'r galw.

59. Mae'r chwyddiant cyflog a nodir yn yr amcangyfrifon uchod yn bragmataidd a chynnil. Rydym mewn amser ansefydlog o ran effaith chwyddiant cyflog ehangach yn yr economi, a chwyddiant cyffredinol sy'n effeithio ar y ffordd rydym yn gwobrwyo ein gweithlu.

60. Mae'r trafodaethau cyflog presennol wedi oedi'n sylweddol gyda'r 3 undeb yn pleidleisio am weithredu diwydiannol ar ôl gwrthod y cynnig 1.75%. Mae undebau'r GIG, sy'n cynnwys nifer o undebau llywodraeth leol, yn cynnig gweithredu diwydiannol ar ôl gwrthod cynnig 3%.

61. Bydd llywodraeth leol yn canfod ei hun mewn sefyllfa hynod o gystadleuol a heriol o ran cyflog, gan geisio cadw i fyny â sectorau cyhoeddus cyfatebol, yr economi ehangach a chwyddiant ei hun.

**Prydau ysgol am ddim**

62. Roedd yr arolwg yn dynodi bod Prydau ysgol am ddim yn cael ei gynnwys yng nghynllunio'r gyllideb oherwydd yr effaith ariannol sylweddol o'r ymateb polisi angenrheidiol yn ystod y Pandemig. Mae polisi Llywodraeth Cymru o dalu am dalebau prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r haf a grëwyd trwy ymateb Covid, wedi arwain at dderbyniadau sylweddol, yn arbennig yn ystod y gwyliau, ac mae tystiolaeth bod disgwyliad i hyn gael ei ddarparu'n barhaol, gan ei wneud yn anodd i ddod i ben.

63. Mae costau sylweddol heb ei ariannu os fydd raid i gynghorau gynnal y cynllun talebau wrth symud ymlaen. Mae dadlau y dylai hwn gael ei drin fel baich newydd a'i gyllideb fel ychwanegyn amlwg yn y setliad.

**Digartrefedd**

64. Thema gyson gan gynghorau yw'r cynnydd mewn nifer y rhai sy'n wynebu digartrefedd. Ar gyfer un cyngor mae hyn yn bwysau cost o £2 filiwn. Mae cynghorau wedi gweithio'n galed i ddarparu llety a chymorth i'r rhai sy'n ddigartref yn ystod y pandemig.

65. Mae gan gynghorau ddyletswydd statudol i helpu'r rhai sy'n cysgu ar y stryd, neu mewn risg o fod heb lety ac ar y stryd. Mae'r ymateb yn aml i ddarparu llety brys. Mae cynghorau hefyd wedi bod yn ymwybodol iawn o'r angen am weithredu'n sydyn oherwydd fod Covid yn lledaenu'n hawdd, yn arbennig gan fod y rhai heb lety yn cael eu gorfodi i ddefnyddio llety neu gysgu ar y strydoedd gan ei wneud yn anodd i gadw at gyngor iechyd y llywodraeth ar gyfer hylendid, hunan ynysu a chadw pellter cymdeithasol.

**Cyfalaf**

66. Mae'r arolwg yn cadarnhau bod ymrwymiadau cyfalaf sylweddol yn cael eu gwneud gan gynghorau gydag effaith canlyniadol ar adfywio lleol a'r cam adfer ar ôl y pandemig. Amcangyfrifir fod cyfanswm gwariant cyfalaf yn £853 miliwn yn 2022-23 gyda £671 miliwn yn 2023-24 a £467 miliwn yn 2024-25. Dros gyfnod o gynllunio ariannol tymor canolig tair blynedd, mae hyn yn dod i gyfanswm o bron i £2 filiwn o fuddsoddiad, gyda £521 miliwn ohono mewn perthynas ag ysgolion a £747 miliwn i Dai.

67. Mae cyllid yn cynnwys dyraniadau Ysgolion yr 21ain ganrif, ond dros y cyfnod mae cynghorau yn dangos ymrwymiad gyda £24 miliwn o gostau ariannol cyfalaf yn cael eu hadeiladu i mewn i gynlluniau ariannol dros y tair blynedd. Gall y lefel gwariant yn y diwedd fod yn uwch, o ystyried yr ymrwymiad i sefydlu a mynd i'r afael â gwahaniaeth mewn cost o adeiladu ysgolion i safonau sero net neu gadarnhaol o ran carbon (gweler Atodiad A).

68. Mae goblygiadau eraill ar gyfer gwariant cyfalaf yn codi o'r ymrwymiadau a nodir yn yr Atodiad. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, buddsoddiad mewn gwres carbon isel a ffynonellau ynni adnewyddadwy, trosi i fflyd trydan a mesurau rheoli llifogydd.

69. Efallai y bydd yn well mynd i'r afael â rhai o'r buddsoddiadau hyn gyda rhaglenni Cymru gyfan. Gallent sicrhau dull cydlynol a chodi'r posibilrwydd o ddatblygu sylfaen gyflenwi o fewn Cymru. Efallai bydd angen cymorth grant penodol gan Lywodraeth Cymru, a derbyniad gan yr Awdurdodau Lleol o

neilltuo o'r fath yng ngoleuni sefyllfa brys newid hinsawdd sydd rhaid ei daclo drwy gydweithio.

70. Yn ogystal â hynny, mae tebygolrwydd cynyddol o orfod gwneud atgyweiriadau i isadeiledd sydd wedi'u difrodi gan ddigwyddiadau tywydd difrifol. Er fod digwyddiad o'r fath yn anodd i'w rhagweld a'u costio, mae'n amlwg y gall y digwyddiadau hyn (e.e. difrod llifogydd; gwaith adferiad tomen lo) gynyddu. Felly mae'n ddarbodus – neu'n angenrheidiol – i gynllunio ymlaen llaw a gwneud lwfansau ychwanegol ar eu cyfer mewn cyllidebau cyfalaf.

71. Mae chwyddiant adeiladu yn bryder ar gyfer prosiectau cyfalaf cynghorau. Mae un corff diwydiant yn nodi mai'r addasiadau i'r rhagolwg 2021 yw eu hadolygiad mwyaf ar gofnod. Er y disgwylir 5.5% erbyn hyn yn 2021, gall rai prosiectau brofi chwyddiant o hyd at 10.0%. Yn dilyn y ffigyrau uchel hyn, bydd chwyddiant yn setlo am gyfnod cyn mynd yn ôl i'r arfer i 4.5% yn 2025.

**Casgliad**

72. Mae cynghorau wedi bod yn eithaf cadarn er gwaethaf y cyfnod hir o ostyngiadau cyllideb termau real. Mae'r 19 mis diwethaf wedi gweld cynghorau yn bodloni'r heriau digynsail o ddelio ag effaith COVID-19.

73. Mae'n sicr fod y cymorth sylweddol gan Lywodraeth Cymru a gwaith partneriaeth effeithiol wedi golygu fod gwasanaethau wedi gallu cael eu cynnal ar gyfnod o argyfwng. Wrth i gynghorau symud yn agosach at y cam adfer, mae'n bwysig nodi bod pwysau pandemig gweddilliol yn parhau a bod angen setliad teg yn 2022-23 er mwyn atal toriadau dwfn mewn meysydd allweddol o lywodraeth leol.

74. Bydd pwysau cyllidebol yn y flwyddyn ariannol i ddod yn dod i gyfanswm o dros £324 miliwn sy'n 7% o Gyllid Allanol Cyfun neu dros 5% o wariant refeniw net.  Mae posibilrwydd fod pwysau wedi'i dwysau ar ôl tynnu cyllid megis y Gronfa Gofal Integredig, sydd ar hyn o bryd yn cefnogi cynnig gofal cymdeithasol craidd.

75. Yn olaf, ar ofal cymdeithasol, mae'n amlwg o'r proffesiwn gofal cymdeithasol fod y galw presennol ar draws gwasanaethau oedolion a phlant yn cael effaith sylweddol ar y system gyfan.  Mae awdurdodau lleol yn ei gweld yn anodd iawn i reoli pwysau yn y gwasanaethau hyn ar gyfer y pobl mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau. Mae'r cyllid ychwanegol ar gael i Lywodraeth Cymru o'r ardoll iechyd a gofal cymdeithasol a ragwelir yn dilyn y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol, yn darparu cyfle unigryw i fynd i'r afael â materion systematig ym modelau darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru drwy fuddsoddiad cynaliadwy.

**Cliriwyd gan: Y Cynghorydd Anthony Hunt**

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:**

Jon Rae
[redacted]

## ATODIAD – YMRWYMIADAU DATGARBONEIDDIO'R ALl

Mae'r ymrwymiadau hyn, a gytunwyd gan arweinyddion, wedi cael eu cynnwys yn y bennod drafft 'Sector Cyhoeddus' o ddogfen Sero Net Cymru sy'n cael ei baratoi ar gyfer cyhoeddiad i gyd-fynd â COP26 ac wythnos Newid Hinsawdd Cymru. (

### Ymrwymiadau allweddol ALl ar gyfer 2021-2025

<table>
<tr><td colspan="2">Local Government strategic commitments<br><br>Commitment # - Strong structures in place for strategic planning and communication and a two year programme of support through the WLGA funded by WG.<br>Commitment # - All LAs have living decarbonisation action plans in place, which will be reviewed regularly with lessons and best practice shared through the WLGA support programme, the first review by end of 2021.<br>Commitment # - from 2021 onwards emissions will be monitored annually, using baseline data. Annual reviews will report progress and drive improvements</td></tr>
<tr><td>Buildings<br>Commitment # - Develop and deliver a strategic plan for the local authority estate decarbonising existing (retained) buildings including retained council housing, moving to renewable energy sources for electricity and heating, and ensuring any new build is to net zero standards (in construction and operation)<br><br>Commitment # - Ystadau Cymru as strategic lead for the public sector will work with LA estate managers to identify and shape what the estate will look like longer term (following recovery from the pandemic) ensuring decarbonisation is at the forefront of this agenda, and help drive the next three commitments:<br>• Develop a strategic plan for decarbonising buildings by the end of 2023<br>• All public buildings are supplied with low carbon heat by 2030 and generate their own electricity where feasible.<br>• All new [new build and new acquisitions, e.g. hubs and lease arrangements] public sector buildings are built to net zero standard, including supply chain impacts as soon as practicable/dates to be confirmed as part of strategic plan. (net zero build and net zero operation)<br><br>Commitment # - Work with the 21st Century schools programme to establish and address cost differential and barriers to building net zero/carbon positive schools [note assuming a a separate 21st C Schools programme contribution in the NZW – this could come out?]<br><br>Commitment # - Plan ahead for a coordinated programme of boiler replacement in council-owned properties<br><br>Commitment # - Work with colleges to develop a 'pipeline' of skilled workers, through apprenticeships and training, to support LA retrofit work.</td><td>Procurement<br>Around 60% of a council's carbon emissions are from procuring supplies and services. There are significant opportunities for councils and other public sector bodies to collaborate on specifications to minimise the carbon impact of goods and services procured (e.g. setting contractual expectations in respect of reusable packaging, delivery of goods by electric vehicles, elimination of single use plastics, waste recycling targets for each business)<br><br>Commitment # - Develop a good understanding by end of 2022 of all procured goods and services and its emissions profile.<br><br>Commitment # - Set out carbon reduction specifications in all new or reviewed contracts to accelerate the decarbonisation agenda.<br><br>Commitment # - Focus on a number of prioritised scale/impact contracts and share the learning regarding decarbonisation across all LAs by end of 2022 to develop a robust decarbonisation reduction approach to be applied to all contracts by 2023.</td></tr>
<tr><td>Mobility and Transport<br>Commitment # - Accelerate transformation towards a zero emission fleet. Building on LA fleet reviews completed in 2021, develop business plans through 2022 setting out how LAs will decarbonise their fleet, including:<br>• Accelerate the roll-out of EV charging infrastructure<br>• All new cars and light goods vehicles being net zero/ultra-low emission by 2025.<br>• Reduce the carbon footprint of buses, taxis and private hire vehicles to zero by 2030.<br><br>Commitment # - Grey Fleet review completed by end of 2022 to identify how to support staff and service delivery to reduce travel requirements where possible and transition to low/zero emission transport.<br><br>Commitment # - Support remote working by staff where possible and appropriate, at home or in 'hubs', and encourage travel to work via active travel and public transport to reduce car journeys.</td><td>Land Use<br>Commitment # - In collaboration with NRW / WLGA / WG map out LA land holdings by April 2022 to identify types of land and their sequestration potential to develop plans to maximise carbon benefits, renewable energy and to identify potential flood management measures<br><br>Commitment # - Carbon sequestration seen by leaders as a valid core purpose for use of public land and opportunities actively pursued by LAs on their own land, including habitat restoration, tree planting etc as appropriate<br><br>Commitment # Develop a specific five-year training and apprenticeship programme on peatland restoration to support the supply chain (which could tie into proposals for a National Nature Service).</td></tr>
</table>